Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu Polisi Cynhwysiant Digidol y Dyfodol
# Briffio Rhanddeiliaid

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod hydref 2024 i ofyn am farn ar bolisi cynhwysiant digidol yng Nghymru yn y dyfodol. Dechreuodd y gweithgaredd hwn ar 25 Medi mewn cyfarfod bwrdd crwn a fynychwyd gan ystod eang o randdeiliaid ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Disgwylir i raglen flaenllaw bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol, Cymunedau Digidol Cymru, ddod i ben ym mis Mehefin 2025. Felly, rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i ddechrau ymgysylltu dwys, i wrando ar farn arbenigwyr, rhanddeiliaid a'r rhai sydd â phrofiad bywyd o allgáu digidol. Byddwn yn dadansoddi'r holl adborth a gawn o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid i helpu i lywio syniadau dros y misoedd nesaf ar gyfer polisi cynhwysiant digidol yng Nghymru yn y dyfodol.

## Y polisi presennol yng Nghymru

Mae ein Strategaeth Ddigidol i Gymru yn nodi gweledigaeth i greu cymdeithas ddigidol gynhwysol lle gall pawb fwynhau manteision technoleg ddigidol. Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch chwe Chenhadaeth allweddol: gwasanaethau digidol, cynhwysiant digidol, sgiliau digidol, economi ddigidol, cysylltedd digidol, data a chydweithio.

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yw ein rhaglen gaffael gwerth £2 filiwn y flwyddyn (a ariennir ar y cyd gan Gynhwysiant Digidol ac Iechyd). Cyflwynir y rhaglen gan Cwmpas ac mae'n mabwysiadu dull cydweithredol trwy weithio gyda sefydliadau trydydd sector, cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol i gyrraedd y rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol. Dechreuodd y contract ar 1 Gorffennaf 2019 a bydd yn para tan 30 Mehefin 2025.

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 yn dangos nad yw 7% o oedolion Cymru sy'n 16 oed a hŷn yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol - nid yw hyn wedi newid ers 2021-22 ac mae'n cyfateb i tua 170,000 o ddinasyddion.

Fodd bynnag, mae pryder ynghylch data ar gyfer demograffeg penodol nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, yn enwedig pobl hŷn 75+ (32%), preswylwyr tai cymdeithasol (12%) a'r rhai â salwch hirdymor (9%).

Mae ffynonellau data eraill gan gynnwys *Mynegai Digidol Defnyddwyr Banc Loyds 2023 (CDI)*, *Ofcom* a *Mynegai Digidol Ieuenctid Nominet (DYI)* yn cynnig mewnwelediadau i ymddygiadau digidol, rhwystrau i fynediad ac anghenion newidiol ar draws grwpiau oedran. Enghreifftiau o brif ystadegau'r DU: -

- 24% o aelwydydd y Deyrnas Unedig yn cael trafferth fforddio eu gwasanaethau cyfathrebu ym mis Gorffennaf 2024 (Ofcom 2024)
- Mae 2.1m o oedolion all-lein. Mae 15% o'r rheini sydd all-lein o dan 50 oed (CDI 2023)
- Nid oes gan hyd at 2 filiwn o bobl ifanc y Deyrnas Unedig fynediad at ddyfais ddysgu (gliniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith) (DYI 2023)

**Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu ymchwil i'r *Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru.* Cyhoeddwyd canfyddiadau'r ymchwil: Cam Un (Chwefror 2023) a Chyfnod Dau (Tachwedd 2023).

Diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol : -

> *"Mae'r safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys cael mynediad at y rhyngrwyd, offer digonol a digon o hyfforddiant a chymorth, ond mae'n fwy na hynny.*
>
> *Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus."*

**Hoffem glywed eich barn ar sut y gallwn gymhwyso egwyddorion Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fel thema drawsbynciol ar gyfer cyflwyno cynhwysiant digidol yn y dyfodol.**

**Ein tasg i randdeiliaid**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd adborth gan randdeiliaid ar bolisi cynhwysiant digidol yn y dyfodol. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol.

**Cwestiynau allweddol**
Byddem yn croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol: -

1. Beth yw eich barn ar y ddarpariaeth cynhwysiant digidol bresennol yng Nghymru ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol?
2. Beth sy'n rhwystro pobl rhag gallu cael mynediad at ddarpariaeth cynhwysiant digidol?
3. Beth sy'n gweithio'n dda? Allwch chi roi enghreifftiau o arfer gorau?
4. Beth hoffech chi ei weld yn y dyfodol o ran polisi cynhwysiant digidol?

**Sut mae cysylltu â ni**
Anfonwch eich sylwadau ar y cwestiynau uchod at: -
**DigitalInclusionMailbox@llyw.cymru**

Os hoffech drefnu cyfarfod i ddarparu adborth manylach, anfonwch e-bost i roi gwybod i ni pryd ydych ar gael rhwng mis Hydref a Rhagfyr. Bydd aelod o'r tîm Cynhwysiant Digidol yn cysylltu â chi i drefnu amser addas ar gyfer y cyfarfod.